
# SYR CIP
## Marchog y Pensil




**1.** Mae nodwydd y cwmpawd bob amser yn pwyntio tua'r gogledd. Gan symud yn glocwedd o'r gogledd, rho'r cyfeiriadau hyn yn eu lle:

**Gogledd Ddwyrain > Dwyrain > De Ddwyrain > De > De Orllewin > Gorllewin > Gogledd Orllewin**

Beth am liwio'r cwmpawd?

**2.** Un ffyslyd yw Gwil Gwiwer. Mae'n chwilio am le da i guddio cneuen. Gan ddefnyddio dy bensil, dilyn Gwil o gwmpas yr ardd, a rho X yn y sgwâr olaf i ddangos ble mae'r gneuen.

**3 sgwâr i'r dwyrain, 3 i'r gogledd, 1 i'r gorllewin, 2 i'r gogledd, 3 i'r dwyrain, 4 i'r de, 1 i'r gorllewin, 1 i'r de, 4 i'r dwyrain, 6 i'r gogledd, 2 i'r gorllewin, 3 i'r de, 1 i'r dwyrain.**










**3.** Yr adeg hon o'r flwyddyn mae tri o'r adar hyn yn hedfan o Gymru i wledydd cynnes y de. Lliwia'r cylch wrth eu hymyl yn **goch**.

Mae'r tri arall yn hedfan i Gymru o wledydd oer y gogledd. Lliwia'r cylch wrth eu hymyl yn **las**.



a) Cwcw


b) Socan Eira


c) Cynffon Sidan


ch) Gwennol


d) Gwalch y Pysgod


dd) Coch yr Adain

**4.** Gan ddechrau ar y seren sydd ar y grid, symud fel hyn, gan dynnu llun seren arall bob tro rwyt ti'n disgyn ar sgwâr:

**2 sgwâr i'r dwyrain, 1 i'r de ddwyrain, 1 i'r de ddwyrain, 4 i'r dwyrain, 2 i'r de, 3 i'r gorllewin**

Nawr mae gen ti 7 seren ddisglair. Tynna linell ysgafn o un i'r llall i wneud siâp sosban. Chwilia am batrwm y Sosban yn awyr y nos.

Mae gan y Sosban enw arall. 'Sgrifenna i lawr lythyren gyntaf y pethau isod, ac fe ddaw'r enw i'r golwg.

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | |
| ★ | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |

